Dal ati i'r diwedd

Dyfalbarhad / dewrder / gofal

Yn y dyddiadur dychmygol hwn cawn dipyn o hanes Betsi, neu Elizabeth Davies. Pan aeth i weithio i Lerpwl yn 14 oed, doedd ei ffrindiau na'i chyflogwyr ddim yn gallu ynganu ei chyfenw, sef Cadwaladr. Fe'i ganed ar dyddyn Penrhiw, ger Bala yn Sir Feirionnydd.

Medi 15, 1793

Wedi bod yn gweithio yn Lerpwl ers rhai wythnosau. Mae'r bobl yn ei chael hi'n anodd i ddweud "Cadwaladr". Rwyf wedi penderfynu newid fy enw yn gyfan gwbl i Elizabeth Davies. Enw hawdd iawn i'w ddweud. Rwy'n darllen y Beibl ges i gan Thomas Charles bob nos yn ddi-ffael...

Gorffennaf 20, 1816

Cael cyfle i deithio gyda'r teulu i bob rhan o Ewrop. Ymweld heddiw â maes brwydr Waterloo lle trechwyd byddin Napoleon. Rydw i wrth fy modd yn gweld y gwahanol olygfeydd...

Medi 9, 1818

Wedi cael digon ar Lerpwl! Yn Llundain erbyn hyn yn gweini i deulu lle mae'r penteulu yn gapten llong. Ar grwydr unwaith yn rhagor. Gweld dipyn mwy ar y byd yn awr...

Mawrth 10, 1832

Ar un o ynysoedd Môr y De. Cyfarfod â chenhadwr o Gymro, John Davies. Fe'i ganed ym mhlwyf Llanfihangel yng Ngwynfa, Sir Drefaldwyn. Rwy'n gobeithio mynd i Affrica. Maen nhw'n dweud fod hen athro Ysgol Sul i mi yno yn rhywle. Ond mae Affrica yn lle mawr iawn, medden nhw!

Ionawr 12, 1854

Er fy mod yn 65 oed rydw i'n hwylio i'r Crimea i helpu'r milwyr.

Rhagfyr 17, 1854

Wedi cyrraedd Caergystennin heddiw ar ôl taith hir a helbulus iawn. Tybed ydw i'n mynd yn rhy hen?

Mawrth 30, 1855

Yn yr ysbyty yn Balaclava. Amgylchiadau difrifol. Mae'r ysbyty yn

fudr ac yn drewi. Llawer o'r milwyr wedi eu hanafu'n ddrwg iawn. Dim adnoddau yma o gwbl. Y moddion a'r cyffuriau yn brin iawn. Mae hi'n anodd iawn trin y clwyfau, hen offer ac adnoddau...

Ebrill 2, 1855

Mwy o filwyr yn marw. Ers wythnos mae 42 o filwyr wedi marw. Mae'r ffrae rhyngof a Florence Nightingale yn gwaethygu. Dydi hi ddim yn fodlon fy mod i a chriw o nyrsys eraill wedi dod yma o gwbl. Mae hi wedi fy nghyhuddo o wneud mwy o ddrwg nag o les yn yr ysbyty. Mae hyn wedi fy mrifo. Caf gyfle i droi at Feibl Thomas Charles yn y man. Mae'n siŵr o godi fy nghalon!

Mai 5, 1855

Methu cysgu dim neithiwr. Dal i feddwl am eiriau cas Florence. Dydw i ddim wedi bwyta dim ers dau ddiwrnod. Mae gweld cyflwr y milwyr a chasineb Florence tuag ataf yn effeithio ar fy iechyd...

Mawrth 3, 1856

Rydw i wedi colli pwysau. Dydw i ddim yn bwyta fawr ddim erbyn hyn. Ofnaf y bydd rhaid i mi ddychwelyd i Lundain.

Mai 1, 1856

Wedi cyrraedd Llundain heddiw. Rwyf am aros efo fy chwaer yn y ddinas fawr!

Ymhen pedair blynedd roedd Betsi Cadwaladr wedi marw. Fe'i claddwyd yn Llundain, ond ni ŵyr neb bellach ymhle.

"Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni."
Rhufeiniaid 12:9

Ein Tad.
Mae hi'n anodd weithiau byw dan straen.
Helpa ni i wneud beth rwyt ti eisiau i ni ei wneud er bod yna anawsterau ar y ffordd.
Amen.

Oni fyddai'n well petai Betsi wedi gadael yr ysbyty yn Balaclava?
Onid oedd y tensiwn rhyngddi a Florence Nightingale yn creu mwy o anawsterau?

Betsi Cadwaladr: 1789–1860